TGAU

cbac
wjec

# TGAU CBAC
# BUSNES

CYMERADWYWYD GAN CYMWYSTERAU CYMRU

# GEIRFA ALLWEDDOL

Addysgu o 2017



Nid yw'r cymhwyster hwn a reoleiddir gan Cymwysterau Cymru ar gael i ganolfannau Lloegr.

## Geirfa allweddol

Mae'r fanyleb yn gofyn i ddysgwyr wybod a deall amrediad o derminoleg busnes. Yn ogystal â gwella'u gwybodaeth busnes, bydd gallu diffinio termau busnes allweddol hefyd yn helpu dysgwyr yn yr asesiadau TGAU Busnes.

Nid yw'r rhestr yn un gwbl gyflawn; mae'n anodd cynnwys yr holl derminoleg busnes gan y byddai'r rhestr yn un faith. Argymhellir bod canolfannau'n defnyddio'r eirfa hon fel man cychwyn ac fel dogfen weithio. Gellir golygu a gwella'r eirfa mewn dwy ffordd:

- Ychwanegu termau allweddol ychwanegol
- Ychwanegu manylion ychwanegol at y diffiniad/disgrifiad

| | |
|---|---|
| Cyfryngau hysbysebu: | yr amrywiol leoedd ble gellir canfod hysbysebion, fel teledu, papurau newydd neu'r rhyngrwyd. |
| Nod (Busnes): | amcan tymor hir busnes. Gallai gael y nod o ennill y gyfran fwyaf o'r farchnad yn ei sector. |
| Integru fertigol yn ôl: | yn digwydd pan gaiff cyflenwyr busnes eu trosfeddiannu gan y busnes hwnnw. |
| Benthyciadau banc: | benthyciadau tymor hir i ganolig y gellir eu defnyddio i brynu nwyddau cynhyrchydd. Mae'r nwyddau'n dod yn eiddo i'r busnes ar unwaith ond gallai methu ag ad-dalu'r benthyciad i'r banc beri i fusnes gael ei gau i lawr. |
| Swp-gynhyrchu: | pan fod nifer fechan o gynhyrchion unfath yn cael eu gwneud ar unwaith. Gellir gwneud sypiau mor aml ag y bo angen. |
| Blogiau: | yn darparu gwybodaeth a chaniatáu trafodaeth ar y rhyngrwyd gyda defnyddwyr eraill sy'n cynhyrchu eu cofnodion neu bostiadau eu hunain. |
| Adennill costau: | yn digwydd ble mae cyfanswm yr arian a dderbynnir gan fusnes yr un peth â'r swm o arian a dalwyd allan. Ni wneir elw na cholled pan fod cyfanswm y refeniw yn hafal i gyfanswm y costau. |
| Angylion busnes: | unigolion cyfoethog sy'n buddsoddi eu cyfalaf preifat mewn busnesau newydd yn gyfnewid am gyfranddaliad yn y busnes. |
| Cynllun busnes: | yn helpu gyda gwneud penderfyniadau drwy ddangos nodau ac amcanion busnes a'r strategaethau a'r gofynion sydd eu hangen i gyflawni'r rhain. Mae hefyd yn darparu gwybodaeth i fanciau a darpar ddarparwyr cyllid eraill i berswadio'r rhain i roi benthyciadau grant ac arian busnes arall. |

| | |
|---|---|
| Arian parod: | arian a ddelir gan y busnes neu yn ei gyfrifon banc. |
| Cadwyn awdurdod: | y llwybr y mae archebion yn symud arno mewn busnes o'r rheolaeth i'r llawr gwaith. |
| Gwasanaethau masnachol: | gwasanaethau sy'n cyflenwi'n bennaf i fusnesau fel cludiant a warysu ond efallai byddant hefyd ar gael i unigolion, fel yswiriant a bancio. |
| Rhagolwg llif arian: | mae'r llif arian yn ymwneud â'r gwahaniaeth rhwng llifo i mewn ac all-lif o ran arian mewn busnes. Mewn rhagolwg llif arian, mae busnesau'n rhagfynegi beth maent yn disgwyl bydd yn digwydd i'w llif arian yn y dyfodol. |
| Amgylchedd cystadleuol: | dyma ble mae nifer o fusnesau yn ceisio perswadio defnyddwyr i brynu eu cynhyrchion. Bydd y fath gystadleuaeth yn seiliedig ar ffactorau fel pris, dyluniad ac ansawdd. |
| Prisio cystadleuol: | strategaeth brisio yw hon ble mae'r busnes yn cynnig nwyddau i'w gwerthu am yr un pris, neu bris is na'r un a bennwyd gan ei gystadleuwyr. |
| Nwyddau traul: | y nwyddau a gynhyrchir ar gyfer y defnyddiwr terfynol. |
| Paneli defnyddwyr: | mae'r rhain yn cael eu recriwtio gan gwmnïau ymchwil i gynrychioli barnau defnyddwyr mewn sector penodol. Gofynnir iddynt roi sylwadau ar bethau fel dylunio cynnyrch a chwaeth neu ar frandio a hysbysebu cynhyrchion. |
| Defnyddwyr: | defnyddwyr terfynol nwyddau a gwasanaethau. Mae'r rhain ar ddiwedd y sianel dosbarthu. |
| Cyfraniad: | y swm a dynnir allan o gost gwerthu pob nwydd ac a ddefnyddir tuag at dalu costau sefydlog cynhyrchu'r nwydd hwnnw.<br>Y cyfraniad am bob nwydd yw'r pris gwerthu minws cost newidiol y nwydd. |
| Mentrau cydweithredol: | yn gyffredinol ystyrir y rhain yn fusnesau menter gymdeithasol democrataidd sy'n perthyn i'r gweithwyr neu, yn fwyaf cyffredin, i'w cwsmeriaid. |
| Cost: | y swm o arian a ddefnyddir i brynu nwydd neu wasanaeth. |
| Prisio cost plws: | strategaeth brisio yw hon sy'n golygu bod y busnes yn ychwanegu swm o arian (yr elw am bob nwydd) at gost cynhyrchu nwyddau i bennu pris gwerthu'r nwydd neu wasanaeth. |

| | |
|---|---|
| Curriculum vitae (CV): | dogfen a ysgrifennir gan berson sy'n chwilio am waith. Mae'n amlinellu manylion personol, cymwysterau, profiadau a diddordebau'r unigolyn hwnnw yn y gobaith y bydd y rhain yn ennyn diddordeb darpar gyflogwr. |
| Gwasanaeth i gwsmeriaid: | yn ymwneud â'r rhyngweithio rhwng y busnes a'r cwsmer ble mae'r busnes yn deall anghenion y defnyddiwr cyn, yn ystod ac ar ôl gwerthu nwydd neu wasanaeth. Gall ymatebion cadarnhaol i wasanaeth ddod â buddion i'r busnesau mewn perthynas â'u henw da a gwerthiant yn y dyfodol. |
| Hysbysebion digidol: | defnyddio technolegau'r rhyngrwyd i ddarparu amrywiaeth o hysbysebu yn cynnwys defnyddio e-bost, negeseuon cyfryngau cymdeithasol a hysbysebion bras ar ffonau symudol a gwefannau. |
| Dosbarthu: | yn ymwneud â chludo neu drosglwyddo defnyddiau i'r cynhyrchydd neu drosglwyddo'r cynnyrch terfynol i'r defnyddiwr. |
| Sianeli dosbarthu: | yn ymwneud â'r llwybrau mae nwyddau'n eu dilyn rhwng y gwneuthurwr a'r defnyddiwr. Gall y llwybr fod yn uniongyrchol rhwng y ddau ond mae rhyngweithio gan ddynion canol yn fwy tebygol. |
| Arallgyfeirio: | yn caniatáu i fusnes dreiddio i farchnad wahanol yn ogystal â'r un maent ynghlwm wrthi'n barod. Mae hyn yn galluogi'r busnes i ledaenu ei risgiau petasai'r busnes gwreiddiol yn methu. |
| Nwyddau sy'n para: | nwyddau traul nad ydynt yn cael eu defnyddio ar unwaith ac nad oes rhaid eu prynu'n aml am eu bod yn para am amser hir. |
| E-fasnach: | yn ymwneud â phrynu a gwerthu nwyddau a gwasanaethau drwy'r rhyngrwyd. |
| Entrepreneur: | person sy'n sefydlu busnes drwy gymryd risgiau ariannol yn y gobaith o wneud elw. |
| Moeseg (Busnes): | yn golygu bod busnes yn gwneud beth sy'n foesol gywir ar gyfer ei randdeiliaid. |
| Strategaethau ymestyn: | yn ymwneud â nifer o ddulliau y gallai busnesau eu defnyddio i estyn cylchred oes eu cynhyrchion. Bydd y rhain yn gysylltiedig â strategaethau cymysgedd marchnata. |
| Twf allanol: | yn ymwneud â chynyddu maint busnes drwy gaffaeliad. Gall hyn gynnwys cydsoddiadau neu drosfeddiannau. |

| | |
|---|---|
| Adborth: | yr ymateb gan gwsmer ar ôl prynu nwydd neu wasanaeth. Bydd y cynhyrchydd yn defnyddio hwn i wella'r hyn a gynhyrchwyd. |
| Cost sefydlog: | mae hwn bob amser yn aros yr un peth ni waeth faint o nwyddau a gynhyrchir. |
| Strwythurau fflat (llorweddol): | yn ymwneud â siartiau trefniadaeth ble mae ond ychydig neu ddim lefelau o reolaeth ganol rhwng y staff a'r gweithredwyr. |
| Oriau hyblyg: | arfer gweithio lle nad yw gweithwyr yn eu swyddfeydd bellach rhwng dau amser penodol. Nawr gall llawer weithio diwrnod llawn o fewn ystod o oriau a bennir gan y cyflogwr. |
| Llif-gynhyrchu (masgynhyrchu): | dull o gynhyrchu ble mae nwyddau'n cael eu cynhyrchu'n barhaol, fel arfer ar linell gynhyrchu. |
| Grwpiau ffocws: | defnyddwyr sy'n cael eu cynnull gan fusnesau i drafod eu hymatebion i gynhyrchion cyn iddynt gael eu lansio. |
| Nifer yr ymwelwyr: | nifer y bobl sy'n mynd heibio'n agos i fusnes. Mae'r rhain yn ddarpar gwsmeriaid i'r busnes. |
| Integru fertigol ymlaen: | mae hyn yn digwydd pan fod busnes yn trosfeddiannu busnes arall er mwyn rheoli dosbarthiad uniongyrchol cynhyrchion y busnes. |
| Masnachfraint: | yr hawl a roddir gan un busnes i un arall i werthu nwyddau neu wasanaethau gan ddefnyddio'i enw. Dylid ei ystyried yn ddull o dyfu ar gyfer y breiniwr ac yn gyfle busnes ar gyfer y deiliad braint yn hytrach na math o sefydliad busnes. |
| Deiliad braint: | busnes sy'n talu breindaliadau am yr hawl i werthu nwyddau neu wasanaethau gan ddefnyddio prosesau sefydledig a than enw busnes arall. |
| Breiniwr: | busnes sy'n caniatáu i ddeiliad braint werthu gan ddefnyddio'u prosesau, eu profiad a'u henw yn gyfnewid am freindaliadau. |
| Cilfanteision: | gwobrau i weithwyr nad ydynt yn ymddangos yn eu cyflog traddodiadol. Gall y manteision hyn gynnwys cerbydau cwmni neu ddisgownt ar gynhyrchion y cwmni. |
| Globaleiddio: | y cynnydd mewn cyd-ddibyniaeth rhwng pobl o gwmpas y byd o ganlyniad i'r cynnydd mewn masnach a chyfnewid diwylliannol. Mae wedi arwain at gynnydd mewn cynhyrchu nwyddau a gwasanaethau yn fyd-eang. |

| | |
|---|---|
| Elw crynswth: | yr elw a wneir cyn i dreuliau gael eu talu. Mae'n cael ei gyfrifo drwy dynnu cost y nwyddau a werthwyd o gyfanswm y refeniw wrth werthu'r nwyddau hynny. |
| Maint yr elw crynswth: | yr elw crynswth wedi ei fynegi fel canran o'r gwerthiant. Mae'n cael ei gyfrifo drwy ddefnyddio'r fformiwla<br><br>Maint yr elw crynswth = $\frac{\text{elw crynswth}}{\text{gwerthiant}} \times 100$ |
| Strwythurau hierarchaidd (tal): | yn ymwneud â siartiau trefniadaeth ble mae llawer o lefelau o hierarchaeth. Fel arfer, yn y sefydliadau hyn, mae llawer o reolwyr, ac mae gan bob rheolwr rychwant rheoli bach. |
| Hurbwrcasu: | system o gredyd ble mae'r benthyciwr yn talu blaendal i allu defnyddio nwydd am gyfnod penodol o amser. Yn ystod y cyfnod hwn telir rhandaliadau i ad-dalu cost y nwydd gyda llog. Daw'r nwydd yn eiddo i'r prynwr pan wneir y taliad terfynol. Mae peidio â thalu yn golygu y gall darparwr y benthyciad fynd â'r nwydd yn ôl. |
| Gweithio gartref: | mae hyn yn golygu nad oes rhaid i weithwyr fynd i weithle bob dydd. Mae technoleg gyfathrebu fodern yn golygu y gellir gwneud gwaith gartref ac y gellir ei fonitro o'r gweithle hyd yn oed. |
| Integru llorweddol: | mae hyn yn golygu prynu neu gydsoddi gyda busnesau eraill sy'n cynhyrchu'r un cynhyrchion neu rai tebyg. |
| Hyfforddiant sefydlu: | defnyddir hwn pan fod gweithwyr newydd yn cael eu cyflogi, fel y gallant ymgyfarwyddo â'u hamgylchoedd newydd a dulliau a pholisïau penodol y busnes hwnnw. |
| Eiddo deallusol: | eiddo na ellir ei weld neu ei gyffwrdd ond sy'n ganlyniad i greadigrwydd unigolyn neu grŵp. Yn union fel mae'n rhaid diogelu nwyddau rhag lladrad a difrod, caiff eiddo deallusol ei ddiogelu gan batentau a hawlfreintiau. |
| Darbodion maint mewnol: | y manteision a ddaw i ran busnes o ganlyniad i fod yn fawr. Gall yr holl gostau gael eu lledaenu rhwng y nifer fawr o nwyddau a gynhyrchir fel y bydd cost pob nwydd yn is nag i fusnesau llai. |
| Twf mewnol (organig): | yn ymwneud â chynyddu maint busnes drwy gynyddu ei werthiant, refeniw, elw a'r gweithlu. |

| | |
|---|---|
| Disgrifiad swydd: | mae hwn yn cael ei ddefnyddio yn y broses recriwtio pan fod cyflogwyr yn disgrifio manylion y gwaith i'w wneud gan weithwyr newydd eu penodi. Gall gynnwys teitl y swydd, y tâl, yr oriau i'w gweithio, gwyliau ac ati. |
| Cynhyrchu yn ôl y gwaith: | yn ymwneud â chynhyrchu nwydd unigol o'r dechrau i'r diwedd. Mae pob cynnyrch yn wahanol ac yn cynnig nwydd unigryw i'r defnyddiwr neu mae'n bodloni gofynion penodol y defnyddiwr. |
| Rhannu swydd: | mae hyn yn golygu, yn lle cael un gweithiwr i wneud un swydd yn llawn amser, caiff y gwaith ei wneud gan fwy nag un person yn rhan amser. Mae hyn yn arbennig o bwysig i weithwyr gyda chyfrifoldebau teulu. |
| Mewn Union Bryd: | mae hyn yn golygu bod rhaid i fusnesau sy'n mabwysiadu'r syniad gadw'r stoc lleiaf posibl o nwyddau gorffenedig a / neu ddefnyddiau. Caiff nwyddau eu cynhyrchu ddim ond pan dderbynnir archebion a / neu caiff defnyddiau eu derbyn ddim ond pan fod eu hangen. Mae'r broses hon yn arbed costau storio ac mae'n osgoi clymu asedau mewn stociau. |
| Prydlesu: | system o rentu ased i fusnes. Mae'r ased yn parhau i fod yn eiddo i'r busnes sy'n rhentu'r nwydd. |
| Atebolrwydd cyfyngedig: | mae hyn yn golygu nad yw perchenogion busnes yn gyfrifol am ddyledion busnes. Ni fydd rhaid ildio eiddo personol i dalu dyledion y busnes. Ond bydd y perchenogion yn colli'r arian a fuddsoddwyd ganddynt os bydd y busnes yn methu. |
| Lleoliad: | ardal ddaearyddol ble gall busnesau gael eu lleoli. |
| Logisteg: | yn ymwneud â rheoli symud nwyddau o ble maen nhw i ble mae eu hangen: yn aml rhwng y cyflenwr a'r gwneuthurwr a rhwng y gwneuthurwr a'r defnyddiwr. |
| Nwyddau ar golled: | cynhyrchion a roddir ar werth, fel arfer mewn archfarchnadoedd, am brisiau nad ydynt yn gwneud elw neu a allai hyd yn oed wneud colledion er mwyn denu cwsmeriaid i mewn i'r siop i brynu nwyddau eraill. |
| Gwneuthurwr: | rhywun sy'n gwneud cynhyrchion. Gelwir hefyd yn gynhyrchydd. |
| Cymysgedd marchnata: | y cyfuniad o ffactorau sy'n helpu busnes i werthu ei gynhyrchion. Fel arfer ystyrir bod hwn yn ymwneud â'r 4 ffactor canlynol (y 4P): cynnyrch, pris, hyrwyddo a lle. |
| Ymchwil marchnata: | y ffordd mae gwybodaeth a data yn cael eu casglu am ddefnyddwyr, cystadleuwyr a thueddiadau'r farchnad. |

| | |
|---|---|
| Segment o'r farchnad: | rhan o'r farchnad sy'n cynnwys grŵp o brynwyr tebyg. Gall marchnadoedd gael eu segmentu ar sail nodweddion fel oedran, rhywedd, incwm, ble maent yn byw, eu cefndiroedd diwylliannol ac ethnig ac ati. |
| Masgynhyrchu (llif-gynhyrchu) | dull o gynhyrchu ble mae nwyddau'n cael eu cynhyrchu'n barhaol, fel arfer ar linell gynhyrchu. |
| M-fasnach: | neu fasnach symudol, sy'n ymwneud â phrynu nwyddau a gwasanaethau trwy ddyfeisiau symudol llaw fel ffonau clyfar. |
| Dosbarthu aml-sianel: | pan fydd busnes yn defnyddio mwy nag un sianel i ddosbarthu ei nwyddau efallai trwy siopau a chatalogau traddodiadol ac ar-lein. |
| Cwmnïau amlwladol: | busnesau y mae eu pencadlys mewn un gwlad ond sy'n gweithredu mewn gwledydd eraill trwy eu swyddfeydd, ffatrïoedd a'u siopau. Nid yw cwmni sydd ddim ond yn gwerthu nwyddau dramor yn gwmni amlwladol. |
| Elw net: | yr elw terfynol a wneir gan fusnes ar ôl i'r holl gostau gael eu talu. Mae'n cael ei gyfrifo drwy ddefnyddio'r fformiwla:<br><br>Elw net = elw crynswth minws costau |
| Maint yr elw net: | yr elw net wedi ei fynegi fel canran o'r gwerthiant. Mae'n cael ei gyfrifo drwy ddefnyddio'r fformiwla canlynol:<br><br>$\text{Maint yr Elw Net} = \frac{\text{Elw Net}}{\text{Gwerthiant}} \times 100$ |
| Marchnadoedd cloer: | marchnadoedd sy'n cynnwys segment bach a thra diffiniedig o'r boblogaeth. Anelir yr holl ymdrechion marchnata ar gyfer cynnyrch penodol at y farchnad honno. |
| Nwyddau sydd ddim yn para: | nwyddau sy'n cael eu defnyddio ar unwaith neu sydd â rhychwant oes o lai na thair blynedd. |
| Amcan (Busnes): | targed tymor byr neu ganolig busnes, y mae ei angen er mwyn iddo gyrraedd ei nod. Enghraifft o amcan fyddai cynyddu gwerthiant o 20% dros y 5 mlynedd nesaf. |
| Hyfforddiant i ffwrdd o'r gwaith: | mae hwn yn digwydd tu allan i weithle'r gweithiwr, yn aml mewn colegau. |
| Hyfforddiant yn y gwaith: | mae hwn yn digwydd yng ngweithle'r gweithiwr. |

| | |
|---|---|
| Twf organig (mewnol): | yn ymwneud â chynyddu maint busnes drwy gynyddu ei werthiant, refeniw, elw a'r gweithlu. |
| Gorddrafftiau: | ffurf ar fenthyciad tymor byr a ddarperir gan fanciau i leddfu anawsterau llif arian busnesau. Mae'r busnes yn cael cymryd mwy allan o'i gyfrif nag sydd yn y cyfrif. Pan delir arian i mewn i'r cyfrif, caiff y gorddrafft ei glirio. |
| Tâl goramser: | telir hwn i weithwyr yn ôl nifer yr oriau a weithir dros ben eu horiau dan gontract. |
| Partneriaethau: | busnesau sy'n perthyn i rhwng 2 a 20 person, sydd ag atebolrwydd anghyfyngedig yn gyffredinol. |
| Prisiau treiddio: | strategaeth brisio sy'n golygu pennu pris isel ar gyfer cynnyrch newydd i annog gwerthiant. Gall y pris gael ei godi yn ddiweddarach gyda theyrngarwch cwsmer a thwf y gyfran o'r farchnad. |
| Cyflog ar sail perfformiad: | tâl ychwanegol i weithwyr sy'n cyrraedd neu'n rhagori ar dargedau a bennwyd ymlaen llaw gan y rheolwyr. |
| Gwasanaethau personol: | y gwasanaethau hynny a ddarperir ar gyfer unigolion. Maent yn cynnwys gwasanaethau ar gyfer ymdwtio personol, gwaith cynnal tŷ, trwsio ceir ac ati. |
| Manyleb person: | yn cael ei defnyddio yn y broses recriwtio fel y gall cyflogwyr ddisgrifio'r math o berson byddent yn hoffi eu cyflogi. Bydd yn amlinellu'r sgiliau, cymwysterau a'r profiad sy'n ofynnol. |
| Cyfradd yn ôl y gwaith: | telir hon i weithwyr ar sail nifer y nwyddau a gynhyrchir. |
| Lle: | yng nghyd-destun y cymysgedd marchnata, dyma ble mae'r cynnyrch ar gael i'r defnyddiwr ei brynu. Gallai lle gynnwys siopau, marchnadoedd, gwerthiant dros y ffôn, y rhyngrwyd ac ati. |
| Hysbysebion naid: | mae'r rhain yn ffurf ar farchnata ar-lein sy'n gosod ffenestri porwr newydd ar sgriniau cyfrifiaduron. |
| Pris: | y swm o arian mae busnes eisiau ei dderbyn er mwyn gwerthu nwydd neu wasanaeth neu'r swm o arian y mae'r defnyddiwr yn fodlon ei dalu i brynu'r cynnyrch hwnnw. |
| Gwahaniaethu ar sail pris: | strategaeth brisio sy'n ymwneud â gosod prisiau gwahanol i segmentau marchnad gwahanol. |

| | |
|---|---|
| Ymchwil cynradd: | yn ymwneud â chasglu gwybodaeth wreiddiol at ddiben penodol: yn aml gelwir hyn yn ymchwil maes. |
| Cwmnïau cyfyngedig preifat: | busnesau sy'n perthyn i gyfranddalwyr sydd ag atebolrwydd cyfyngedig. Nid yw eu cyfranddaliadau ar gael i eraill ac eithrio gyda chytundeb cyfranddalwyr eraill. Yn gyffredinol gellir eu hadnabod drwy'r Cyf ar ôl enw'r busnes. |
| Caffael: | yn ymwneud â chael neu brynu nwyddau a gwasanaethau o ffynhonnell allanol. Y nod yw defnyddio'r rhain yn y broses gynhyrchu neu eu gwerthu ymlaen. |
| Nwyddau cynhyrchydd: | y rhai hynny a gynhyrchir ar gyfer busnesau eraill fel y gallant gynhyrchu nwyddau a gwasanaethau eraill. |
| Cynnyrch: | nwydd neu wasanaeth a ddarperir gan fusnes. |
| Dirywiad cynnyrch: | y pwynt yng nghylchred oes cynnyrch ble mae'r gwerthiant yn gostwng a ble gallai ddod i ben ymhen amser. |
| Gwahaniaethu rhwng cynnyrch: | yn ymwneud â gwahaniaethu rhwng un cynnyrch neu wasanaeth a rhai eraill. Trwy wneud cynnyrch yn wahanol neu beri iddo ymddangos yn wahanol i gynhyrchion tebyg a werthir gan gystadleuwyr, bydd busnes yn gobeithio denu mwy o gwsmeriaid. |
| Twf cynnyrch: | mae hyn yn rhan o'r cam cynnar yn y cylchred oes cynnyrch pan fod gwerthiant ac elw yn codi. |
| Lansio cynnyrch: | y pwynt ble caiff cynnyrch ei roi ar y farchnad. |
| Cylchred oes cynnyrch: | y camau mae cynnyrch yn symud drwyddynt o'i ddatblygiad cynharaf tan yr amser pan na fydd bellach ar gael ar y farchnad. |
| Aeddfedrwydd cynnyrch: | y pwynt yng nghylchred oes cynnyrch ble mae gwerthiant yn cyrraedd ei uchafbwynt. |
| Portffolio cynhyrchion: | y casgliad/ystod o'r holl nwyddau a gwasanaethau a gynigir gan fusnes. |
| Dirlawnder cynnyrch: | y pwynt yng nghylchred oes cynnyrch ble mae'r farchnad yn llawn wrth i gystadleuwyr gyflwyno cynhyrchion tebyg. |

| | |
|---|---|
| Elw: | y gwahaniaeth rhwng cyfanswm refeniw busnes a chyfanswm costau busnes, pan fod y refeniw yn fwy na'r gost. Mae'n bwysig bod yn drachywir wrth ddefnyddio'r term hwn: mae dweud "arian a wnaed" yn gallu creu dryswch. |
| Rhannu elw: | gwobr ychwanegol a delir i weithwyr i adlewyrchu'r elw a enillwyd gan y busnes. |
| Hyrwyddo: | yn ymwneud â'r wybodaeth a'r technegau a ddefnyddir gan fusnesau i wneud defnyddwyr yn ymwybodol o gynhyrchion a'u perswadio i brynu'r cynhyrchion hyn nawr ac yn y dyfodol. |
| Prisio seicolegol: | strategaeth brisio sy'n golygu cynnig nwyddau am brisiau sy'n is na rhifau cyfan fel £5.99 neu £499, neu ddefnyddio geiriau fel "dim ond". Y gobaith yw y bydd y defnyddiwr yn credu bod y cynnyrch llawer yn rhatach na phe bai'r pris wedi bod yn £6 neu £500. |
| Cwmnïau cyfyngedig cyhoeddus: | busnesau sy'n perthyn i gyfranddalwyr sydd ag atebolrwydd cyfyngedig. Mae eu cyfranddaliadau ar gael i eraill drwy eu gwerthu i'r cyhoedd, yn aml ar y Gyfnewidfa Stoc. Yn gyffredinol gellir eu hadnabod drwy'r Ccc ar ôl yr enw busnes. |
| Data ansoddol: | gwybodaeth ddisgrifiadol a geir drwy brofiadau neu mewn gwerslyfrau neu bapurau newydd neu adroddiadau. Gall gynnwys barnau ac ni ellir ei feintioli gan rifau. |
| Ansawdd: | yn ymwneud â chyrraedd safon mewn nwydd neu wasanaeth a fydd yn bodloni anghenion a disgwyliadau defnyddwyr. |
| Sicrhau ansawdd: | gwarant a roddir gan gynhyrchwyr i ddefnyddwyr bod safonau penodol wedi cael eu cyrraedd drwy'r holl broses gynhyrchu. Mae'r ansawdd yn rhan annatod o'r broses gynhyrchu. |
| Rheoli ansawdd: | yn ymwneud ac arolygu sampl o nwyddau ar ddiwedd y broses gynhyrchu i sicrhau bod y manylebau wedi cael eu bodloni. Caiff nwyddau sydd wedi methu â chyrraedd y safonau eu taflu neu eu gwerthu fel nwyddau eilradd. |
| Data meintiol: | yn delio â mesuriadau a ffigurau a ddangosir mewn tablau a graffiau efallai. Maent yn cynnwys data rhifiadol y gellir rhoi gwerthoedd iddynt ac maent yn haws eu dehongli a'u gwerthuso o gymharu â data ansoddol. |
| Adwerthwr: | rhywun sy'n gwerthu nwyddau i ddefnyddwyr. Mae adwerthwyr bach yn prynu eu stoc gan gyfanwerthwyr ond mae adwerthwyr ar raddfa fawr yn prynu'n uniongyrchol gan y gwneuthurwyr. |

| | |
|---|---|
| Refeniw: | y swm o arian a dderbynnir gan fusnes wrth werthu nwydd neu wasanaeth. |
| Cyflogau: | yn gyffredinol telir y rhain i weithwyr gweinyddol a rheoli. Mae'r cyflog yn seiliedig ar eu gwaith am y flwyddyn. |
| Y broses werthu: | yn ymwneud â chyfres o gamau a gymerir gan ddechrau pan fod y darpar brynwr yn cwrdd â'r darpar werthwr tan ar ôl i'r gwerthiant terfynol ddigwydd. |
| Hysbysebu peiriant chwilio | ffurf ar farchnata ar-lein sy'n gosod hysbysebion ar dudalennau gwe sy'n dangos y canlyniadau o ymholiadau peiriant chwilio. |
| Ymchwil eilaidd: | yn ymwneud â defnyddio gwybodaeth sy'n bodoli'n barod: yn aml gelwir hyn yn ymchwil desg. |
| Marchnad sengl: | pan fod gwledydd yn ymuno â'i gilydd i fasnachu fel pe baent yn un wlad, fel nad oes rhwystrau masnachu fel tolldaliadau pan fod nwyddau'n croesi'r ffiniau o fewn y farchnad. Mae'r Undeb Ewropeaidd yn enghraifft o farchnad sengl. |
| Safle: | lle penodol mewn ardal ddaearyddol. |
| Sgimio (Prisiau): | strategaeth brisio sy'n golygu gwerthu cynnyrch am bris uchel er mwyn ennill elw cychwynnol uchel. Yna caiff y prisiau eu gostwng yn ddiweddarach. |
| Amcanion CAMPUS | acronym a ddefnyddir fel canllaw ar gyfer pennu amcanion busnes. Mae'n golygu Cyraeddadwy, Amserol, Mesuradwy, Penodol, Uchelgeisiol, Synhwyrol. |
| Mentrau cymdeithasol: | busnesau sy'n gweithredu er budd y gymuned neu eu gweithwyr neu fel elusen. |
| Y cyfryngau cymdeithasol: | yn ymwneud â gwefannau a rhaglenni sy'n caniatáu i ddefnyddwyr greu a rhannu gwybodaeth, syniadau a diddordebau gydag unigolion, cymunedau a rhwydweithiau eraill. |
| Unig fasnachwyr: | busnesau sy'n perthyn i un person sydd ag atebolrwydd llawn. Gellir cyflogi pobl eraill ond dim ond un perchennog sydd yna. |
| Rhychwant rheoli: | nifer y bobl mae unigolyn yn bersonol gyfrifol amdanynt mewn sefydliad busnes. |
| Rhanddeiliaid: | unigolion a sefydliadau yr effeithir arnynt gan benderfyniadau a gweithredoedd busnes penodol. |

| | |
|---|---|
| Cadwyn gyflenwi: | system gymhleth o fusnesau, pobl, gweithgareddau, gwybodaeth ac adnoddau sy'n ymwneud â symud nwydd neu wasanaeth rhwng y ffynhonnell a'r cwsmer. |
| Cynaliadwyedd: | pan fod busnesau'n gweithredu mewn ffordd gyfrifol ac i sicrhau bod ein hamgylchedd a'n hadnoddau ar gael er mwynhad cenedlaethau'r dyfodol. |
| Cyfradd yn ôl yr amser: | telir hon i weithwyr ar sail nifer yr oriau a weithir. |
| Cyfanswm y gost: | y swm llawn o arian a wariwyd gan fusnes wrth greu'r cynnyrch a werthir mewn cyfnod penodol. Caiff ei gyfrifo drwy ychwanegu ei gostau sefydlog at ei gostau newidiol. |
| Cyfanswm y refeniw: | cyfanswm yr arian a dderbyniwyd gan fusnes wrth werthu ei holl nwyddau mewn cyfnod penodol. Caiff ei gyfrifo drwy luosi'r pris gwerthu â nifer y nwyddau a werthwyd. |
| Credyd masnach: | system o gredyd tymor byr di-log ar gyfer prynu nwyddau sydd ddim yn para. Bydd rhaid talu am y rhain o fewn mis fel arfer. |
| Trosiant: | term arall am refeniw. |
| Pwynt gwerthu unigryw (USP): | yr hyn sy'n gwneud cynnyrch yn wahanol i'r rhai a werthir gan gystadleuwyr. Gall olygu'r pris isaf, yr ansawdd gorau neu'r cyntaf o'i fath. |
| Atebolrwydd llawn: | yn golygu bod perchenogion busnes yn gyfrifol am holl ddyledion busnes. Efallai bydd rhaid ildio eiddo personol i dalu dyledion y busnes. |
| Cost newidiol: | y gost sy'n amrywio yn ôl nifer y nwyddau a gynhyrchir. |
| Cyfalaf menter: | pan fod buddsoddwyr preifat yn darparu cyfalaf i fusnesau bach neu newydd sydd â'r potensial ar gyfer twf. |
| Integreiddiad fertigol: | yn ymwneud â phrynu neu gydsoddi busnesau ar wahanol gamau o gynhyrchu fel y gall y busnes reoli'r gadwyn gyflenwi. |
| Cyflog: | yn gyffredinol telir hwn i weithwyr siop a llawr ffatri ar sail cyfraddau yn ôl yr amser a / neu gyfraddau yn ôl y gwaith. |

| | |
|---|---|
| Warws: | lle ble caiff adnoddau neu gynhyrchion gorffenedig eu storio cyn iddynt gael eu gwerthu. |
| Cyfanwerthwr: | un sy'n prynu nwyddau gan y gwneuthurwr ac sy'n gwerthu'r nwyddau hyn mewn meintiau llai i adwerthwyr. |
| Gweithlu: | y bobl sy'n gweithio neu sy'n chwilio am waith. |
| Contractau dim oriau | yn ymwneud â sefyllfa ble nad yw cyflogwyr yn cynnig lleiafswm o oriau i'w gweithio ac nid oes rhaid i weithwyr dderbyn y gwaith a gynigir. Mae hyn o werth arbennig i fusnesau ble gall y galw amrywio o ddydd i ddydd, fel y rhai sy'n ymwneud ag adwerthu neu arlwyo. |